

## 9 - Llansannan i Wytherin 7.0 milltir/11.3 km

O'r Eglwys, cerddwch heibio'r dafarn a'r cerflun (ar y dde) a chymryd y lôn Ffordd Gogor ar y chwith. Ar ol y tŷ olaf yn y pentref ac wrth ffermdy Gogor Canol, cymerwch y llwybr, ar y chwith, drwy'r buarth fferm.

Wrth i chi adael y buarth fferm ewch tua'r dde. Hwn eto yw Taith Clwyd. Ar ôl croesi'r bont trowch i'r dde a cherdded gyda'r afon sydd hefyd ar eich ochr dde dros y camfeydd.

Mae'r llwybr yn mynd i mewn i goedwig. Dilynwch hwn am oddeutu 800 metr. Yma mae'r trac yn lledu ychydig – edrychwch am lwybr sy'n mynd i lawr i'r dde. Cymerwch hwn dros y bont droed. Nawr mae gennych waith dringo gweddol anodd a llithrig ond gweddol fyr i fyny ac i lawr. Croeswch y gamfa nesaf i'r ffordd a chymryd y trac gyferbyn. (Gallwch osgoi'r darn yma drwy ddilyn y ffordd a fforchio i'r chwith ar ôl y fferm – Gogor Canol – uchod.) Cerddwch ar hyd glan yr afon i'r hen felin. Anwybyddwch y trac sy'n mynd i'r dde dros y bont ar y pwynt yma. Parhewch i fyny'r ffordd sy'n ffordd fetlin erbyn hyn at y lôn. Parhewch i fyny'r allt i'r groesffordd.

Trowch i'r dde ar hyd y ffordd sy'n pasio Acrau-uchaf ar eich ochr chwith. Ar gyffordd y ffordd cymerwch y llwybr troed yr holl ffordd drwy'r buarth fferm (Rhŷd-loew) ac i lawr i'r afon. Ewch i'r chwith i gerdded wrth ochr yr afon a thros bont droed. Dilynwch y llwybr troed i fyny'r allt i fynd dros gamfa i gae mawr agored. Croeswch y cae yma'n lletraws hanner chwith i'r gornel bellaf lle byddwch yn cyrraedd giât. Ewch drwy'r giât i'r trac fferm a mynd tua'r chwith i fynd i lawr yr allt ar hyd y trac. Yn y pen draw, mae'r trac yn troi'n llwybr; dilynwch hwn i Fwthyn Hendre Aled. Ewch ymlaen y tu ôl i'r tŷ gyda'r ffens fetel wen ar eich ochr chwith, at y tŷ nesaf yn Hendre Aled. Ewch drwy a heibio'r adeiladau ac yna cymerwch y llwybr troed, ar y chwith, drwy'r giât (mae camfa ochr yn ochr â hi gyda chyfeirbwynt Taith Clwyd arni) ac i mewn i'r cae a thu ôl i'r sgubor. Yn awr mae'r llwybr yn mynd i fyny'r allt a thros ddwy gamfa i'r fferm yng Nghleiriach. Ar ôl yr ail gamfa, trowch i'r dde ar hyd ffordd fynedfa'r fferm sydd wedyn yn gwyro i'r chwith wrth Fainc y Pererin (lle mae golygfa wych). Dilynwch ffordd y fferm dros grid gwartheg a throi i'r dde i fynd ar y Comin. Ar gyffordd y ffordd mae Taith Clwyd, opsiwn arall, yn ymuno â'r daith yma. Trowch i'r chwith ar hyd y ffordd ac wrth y gyffordd nesaf, trowch i'r dde,

Dilynwch y lôn yma nes bydd yn troi'n gyflym i'r dde. Ewch drwy'r giât, i'r chwith, a dilyn y trac dros nant fas ac i fyny'r allt i'r cae. Ar ôl oddeutu 70 metr, lle mae'r trac yn mynd i'r chwith tuag at y corlannau defaid, ewch oddi ar y trac a mynd yn syth o'ch blaen tuag at giât yn y ffens. Dilynwch y llwybr i lawr yr allt gyda'r nant wrth ei ochr ac i'r chwith.

Parhewch nes cyrhaeddwch yr adfeilion adeiladau yn Hafod-gau sydd mewn ychydig o gwm ac wedi eu hamgylchynu â choed conwydd. Ewch i'r chwith drwy'r giât ac yna un arall i basio ar ochr dde'r adeilad. Cerddwch i fyny'r allt, i'r chwith, i gyrraedd camfa a chroesi drosti i'r lôn.

**OS Hamdden Awyr Agored 17** Croeswch drosodd at y llwybr troed ar ochr arall y lôn. Cerddwch gyda'r ffens ar eich ochr chwith i fynd dros ddwy gamfa arall a phont droed fechan. Ewch yn syth yn eich blaen at geunant bychan. Cerddwch yn ofalus i lawr i groesi'r nant a chymryd y llwybr i fyny'r ochr arall at giât.

Ewch yn syth ymlaen gan symud i ffwrdd oddi wrth y ffens ar yr ochr dde i fynd drwy fwch yn y gwrych/ffens ac i lawr drwy'r ddwy giât i'r lôn. Trowch i dde ar ei hyd.

Bron yn syth, trowch i'r chwith ar hyd y ffordd tuag at y fferm yn Llethr. Wrth i'r ffordd fferm droi i'r dde, cymerwch y llwybr troed, ewch drwy giât mochyn o'ch blaen, a chroeswch drosti at giât yn y ffens ar y chwith. Ewch drwyddi a cherdded gyda'r ffens ar eich ochr dde i lawr at giât a chroesi nant. Gyda'r nant ar eich ochr dde, ewch ychydig bach i'r chwith i fyny'r allt drwy giât i gerdded ar draws y cae at y gwrych. Ewch yn eich blaen gyda'r gwrych ar eich ochr dde, drwy gae arall a thros gamfa.

Ewch yn syth ymlaen i ddechrau ond bron ar unwaith trowch i'r chwith i fynd dros y bryn isel. Gan gerdded ychydig i'r dde anelwch am gamfa yn y gwrych a'r ffens. Trowch i'r dde a pharhau at y lôn. Trowch i'r chwith i lawr y ffordd i bentref Gwytherin.